Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

2. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

3. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

4. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

5. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

6. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Ymatebion

Enw A

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Mentrau Iaith Cymru, Fforwm Gwledig Cymru

C4 angen darlledu i blant yn ystod y gwyliau ac yn y bore 7:00 - 9:00 yn ystod wythnos ysgol,

C5 ystod o raglenni gwahanol. Dim ail ddarlledu o fewn blwyddyn

C6 Gellir rhoi crynodeb o'r hyn sy'n digwydd yn y Cynulliad o'r bore fel rhan o raglen amser cinio e.e. Working lunch sy'n galluogi plant wedyn i wylio yn ddi-dor tan 12:00.

C7 Na

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Alwyn ap Huw

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Rwy'n croesawu'r syniad o ddarlledu llawer mwy o raglenni plant na sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae yna argaeledd rhaglenni Saesneg ac Americanaidd 24 awr y dydd - mae disgwyl hynny yn y Gymraeg yn ormod, ond mae'n bwysig bod rhaglenni i blant a phobl ifanc ar gael dros mwy o oriau na sydd ar gael ar hyn o bryd.

Un o'r problemau rwy'n gweld fel rhiant i ddau o blant yw os ydynt yn mynd i'r Urdd ar ôl ysgol neu os oes practis côr ysgol ac ati erbyn iddynt ddychwelyd adref does dim rhaglenni Cymraeg addas iddynt eu gwylio ar ôl ddychwelyd adref gan fydd Planed Plant, fel y mae heddiw, wedi hen darfod.

Yr wyf yn pryderu ta waeth am y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd ar S4C 2, trist bydd gweld ei golli er mwyn gwneud lle i raglenni plant a phobl ifanc.

Mae'n bwysig i ddemocratiaeth Gymreig bod trafodaethau'r Cynulliad yn cael eu darlledu, yn fyw os oes modd, neu recordiadau o sesiynau cyflawn yn cael eu darlledu ar ddiwedd nos dweder o 9PM ymlaen.

Cefais blas ar y rhaglenni o'r Babell Lên yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol llynedd, mi fyddai'n piti colli'r fath ddarpariaeth yn llwyr er mwyn gwneud lle i raglenni plant, ond mae'n anodd gweld sut bydd modd cael y ddwy ddarpariaeth.

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Neil Baglin

C1 Ydw

C2 Nac ydw

C3 Gallaf

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Lindsay Gwilym Barnett

C1 Ydw. Mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu. Rydw i’n disgwyl gweld mwy o siaradwyr Cymraeg, iaith gyntaf a dysgwyr, yng Nghyfrifiad 2011. Mae’r ddogfen ymgynghorol yn sôn am y twf sydd eisoes wedi digwydd, ac fe fydd mwy o dwf erbyn 2011 mae’n si . Byddai’r sianel hon yn cefnogi defnydd o’r iaith ymhlith ein pobl ifainc. Byddai’n cyfoethogi’r iaith yn fawr ac mae hyn yn bwysig.

C2 Ydw. Dylai pawb gael cyfle i drio pethau. Rydw i’n credu yn gryf y dylai trydydd parti gael eu cynnwys i ddybio rhaglenni Saesneg i’r Gymraeg

C3 Gallaf

C4 Yn gyntaf, rydw i’n credu y dylai’r sianel fod yn ddigidol yn unig, gyda mwy o Gymraeg mewn hysbysebion. (Mae hwn yn sylw cyffredinol). Bydden i’n awgrymu ar ôl ysgol yn ystod yr wythnos, mwy ar y penwythnosau. Efallai y gellir darlledu rhaglenni addysg Cymraeg ar y sianel pan fo’r plant yn yr ysgol (09:00 - 15:00), ar gyfer y plant sydd gartref yn sâl er enghraifft. Mae’n bwysig

cadw plant Cymru yn siarad Cymraeg, ac mae teledu yn gallu bod yn gyfrwng addysg arbennig. Dylai'r gwasanaeth llawn fod ar yr awyr rhwng 15:00 a 18:00. Dyna pryd y byddai'r mwyafrif o'r gynulleidfa darged gartre i'w weld.

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dylid ystyried yr amseroedd y mae'r plant yn yr ysgol. Yn fy ardal i, maen nhw yn yr ysgol rhwng 0900 a 15:30. Mae hyn yn golygu y byddai'r rhan fwyaf o'r gynulleidfa darged yn yr ysgol ac mai dim ond rhwng 15:00/15:30 a 18:00 y gallen nhw wylio. Rydw i'n credu yn gryf y dylid darlledu rhaglenni addysg ar y sianel hon rhwng 09.00 a 15.00 yn ystod yr wythnos, gyda rhaglenni plant cyffredinol yn ystod y gwyliau.

·–·–·–·–·–·

Enw Steve Boswell

C1 Ydw

C2 Nac ydw

C3 Na

C4 Mae'r oriau yn debyg i'r rhai sy'n cael eu darlledu ar sianeli plant eraill, er bod y gallu i bara i ddarlledu gyda'r nos (tan 9pm) yn gam ymlaen wrth gydnabod nad yw'r arddegau yn mynd i'r gwely pan fo rhaglenni plant yn gorffen. Byddai hyn yn arwain at fwy o hyblygrwydd wrth greu'r amserlen ac yn hybu datblygu fformatau newydd i raglenni.

C5 Bod yn gyswllt rhwng rhaglenni Cymraeg i blant ac oedolion.

C6 Gallai Opsiwn 1 fod yn gymhleth, ac ni fyddai'n creu patrwm cyson i'r naill na'r llall. Ond mae Opsiwn 2 yn gam yn ôl, gan ei fod yn cau'r drws ar y broses ddemocrataidd. Yn fy marn i, mae 'na "ffordd ganol":

Darlledu S4C Digidol fel y mae
Darlledu gwasanaeth llawn i blant ar sianel sy'n unswydd iddyn nhw
Recordio'r Cynulliad Cenedlaethol a'i ddarlledu dros nos

Byddai hyn yn ddefnydd da o'r gofod sydd ar gael, a hefyd yn galluogi'r gwasanaethau i gyd i bara/ gwella.

C7 Dim sylw

·–·–·–·–·–·

Enw Sarah Bradnock

C1 Ydw. Rdyw i'n teimlo bod digon o ddarpariaeth ar gyfer plant oed cyn ysgol ac ifanc ond dim digon i gadw diddordeb yr arddegau. Mae hyn yn golygu ein bod yn eu colli i'r Saesneg.

C2 Ydw

C3 Mudiad Ysgolion Meithrin

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Fel rhywun sy'n dysgu Cymraeg ac fel rhiant i blentyn 3 mlwydd oed yr ydw am iddo fod yn

Gymro Cymraeg - mae'r is-deitlau Cymraeg ar raglenni meithrin yn hynod o werthfawr. 'Allwn ni gael mwy os gwelwch yn dda - gan nad oes is-deitlau ar bob rhaglen?
Hefyd mwy o ddefnydd ar dechnegau fel hyn fel bod dysgwyr - hyd yn oed rai heb blant - yn gallu manteisio ar raglenni plant. Byddai hyn hefyd yn cynyddu eich cynulleidfa ac yn galluogi rheini sy'n dysgu Cymraeg i wylio'r teledu gyda'u plant - yn hytrach na gwylio rhaglenni Saesneg gyda'i gilydd.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Ward Broughton

C1 Ydw. Er nad yw fy mhlant yn eu harddegau eto, dwi'n credu taw prin iawn yw'r rhaglenni Cymraeg sydd ar gael iddynt (o gymharu gyda'r llu o raglenni Saesneg sydd ar gael yn rhad ac am ddim 24 awr y dydd ar digidol).

C2 Nac ydw. Mae'r gynulleidfa botensial lawer yn rhy fach i ddenu nawdd mawr a PHERTHNASOL.

C3 Na

C4 Dylai rhaglenni i blant ifancach na'r arddegau orffen am 19.00 - run fath â CBeebies.

C5 Mae'n bwysig pwysleisio rhaglenni wedi'u cynhyrchu yn lleol, ond 'ddylai S4C ddim ofni defnyddio cartwnau rhyngwladol poblogaidd fel Scooby-do neu Ampan-man o Siapan. Bydd hyn yn rhoi gwaith i actorion o Gymru, ac yn rhyddhau arian i fuddsoddi mewn rhaglenni gwreiddiol.

C6 Oes rhaid darlledu'r Cynulliad yn fyw? A ellir darlledu digwyddiadau'r diwrnod blaenorol yn ystod y cyfnod tawel rhwng 2am a 6am - os ydyn nhw mor bwysig?

C7 Oes unrhyw bwynt i gael S4C ar wahân i'r BBC yn yr oes ddigidol newydd? Oni allai'r BBC fod yn gyfrifol dros holl gynnyrch gwasanaeth cyhoeddus (yn enwedig gan taw oddi yno y mae'r rhan fwyaf o raglenni yn dod) gan ddefnyddio dwy sianel S4C ar gyfer rhaglenni Cymraeg i Oedolion a Phlant. Gyda'r Cynulliad yn cael ei ddarlledu ar y sianel seneddol.

Onibai fod S4C yn sianel fasnachol wir annibynnol, byddai trosglwyddo rhaglenni Cymraeg nol i'r BBC yn ymddangos yn synhwyrol. Mae'n syndod nad yw'r papur hwn wedi rhoi ystyriaeth i hyn.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Mari Clifton

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Digon o raglenni o ansawdd da, a digon o raglenni/cartwns gwreiddiol, heb eu cyfieithu o'r Saesneg.

C6 Dim sylw

C7 Rydw i'n byw y tu allan i Gymru, ac ar fin bod yn fam. Ryda ni wedi prynu Sky er mwyn i ni fel teulu fedru gwylio S4C. Fe fyddai cael gwasanaeth yn llwyr ar gyfer plant yn hwb fawr wrth i mi geisio magu fy mhlant yn ddwyieithog.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw H Cressey

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Ar hyn o bryd yr wyf yn credu'n gryf nad yw plant Cymru yn cael digon o oriau darlledu. Mae rhaid canmol rhaglenni sy'n cael eu darparu ar gyfer plant, mae'r Gymraeg a ddefnyddir fel arfer yn raenus ac mae'r rhaglenni yn rhai gwreiddiol a difyr i blant, yn enwedig y slot Meithrin, Rownd a Rownd ac Uned 5. Yr wyf yn credu y bydd yr oriau ychwanegol ar ddwy sianel wahanol i blant o wahanol oedran yn dderbyniol ac i'w ganmol. Yr wyf yn cefnogi bloc pwrpasol i blant o bob oed a phobl ifanc (cwestiwn cyntaf ddim ond yn cyfeirio at blant yn eu harddegau).

C5 Un nodwedd hanfodol yn fy marn i fyddai mai nad cyfieithiadau o raglenni Saesneg i'r Gymraeg fydd y rhaglenni, nid wyf yn credu bydd hyn yn denu'r cynulleidfaoedd. Mae rhaid i S4C fod yn hyderus yn eu gallu i fedru cynnig mwy o ddarpariaeth o raglenni gwreiddiol Cymraeg a Chymreig. Yr wyf hefyd yn mawr hyderu mai Cymraeg graenus a chywir bydd yn cael eu darlledu. Wrth wylio un o raglenni Taro 9 yn ystod y flwyddyn, fe noddodd un o'r bobl ifanc yn y gynulleidfa mai un o'u pryderon am raglenni plant oedd safon y Gymraeg. Nid oeddynt yn credu fod rhaid defnyddio bratiaith i ddenu'r cynulleidfaoedd a'u bod yn cael yr argraff fod cynhyrchwyr o'r farn na fydd plant yn deall cynnwys rhaglenni os ydynt yn siarad mewn Cymraeg cywir a graenus (yr wyf yn cytuno â hwy). Ni ddylid meddwl am eiliad fod plant a phobl ifanc yn mynd i ddioddef gwylio rhaglenni sydd â Chymraeg blêr, mae hyn yn dueddol o wylltio pobl os rhywbeth.

C6 Credaf mai opsiwn 1 fyddai'r opsiwn oraf os yw'r sianel yn medru cyfiawnhau darlledu'r hyn sy'n digwydd yn y Cynulliad h.y. ni ddatgelir y nifer sy'n gwylio S4C2 ar hyn o bryd ac felly mae rhaid i rhywun gymryd yn ganiataol fod nifer y gwylwyr yn ddigonol i fedru cyfiawnhau parhau i ddarlledu o'r Cynulliad. Gellir hefyd wrth gwrs fel rhan o'r darllediadau hyn fod yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y rhaglenni i drio denu eu diddordeb a chael mwy o ddealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn y Cynulliad (yr wyf yn ymwybodol mai nid dyma yw bwriad y sianel ar hyn o bryd). Onid oes modd felly newid ychydig ar drefn/darpariaeth y sianel hon yn gyffredinol i fedru cael sesiynau trafod neu rhywbeth gyda phlant/pobl ifanc.

C7 Yr wyf yn gobeithio o ganlyniad i'r sianeli newydd y bydd mwy o waith yn cael ei greu ledled Cymru. Mae rhywun yn ymwybodol iawn fod nifer o gwmnïau annibynnol yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd ac y bydd modd gwneud mwy o ddefnydd o gyfleusterau y tu allan i Gaerdydd e.e. Barcud yng Nghaernarfon, i wneud yn si□ nad yw safleoedd fel hyn yn cau. Credaf bod modd drwy'r sianeli newydd hyn i gynnal/ailgynnau diddordeb plant/pobl ifanc yn yr iaith Gymraeg ac y bydd yn ffynnu o'r herwydd. Fe hoffwn ategu hefyd (er mai nid dyma'r corff sy'n gyfrifol am hyn) bod angen i radio Cymru ddilyn, a chynnig rhywbeth tebyg i'r hyn a gynigir uchod.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Fiona Cross

C1 Ydw. Pan ddechreuais i ddysgu Cymraeg, gyda'r plant hefyd yn dechrau dysgu, byddwn wedi bod wrth fy modd cael sianel Gymraeg i blant i'n helpu ni.

C2 Ddim yn gwybod

C3 Ddim yn gwybod

C4 Yn y bore ac ar ôl ysgol

C5 Ddim yn gwybod

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw C E Davies

C1 Ydw. Mae gan y BBC CBeebies a CCBC; mae gan ITV CITV ac mae 'na lawer mwy o sianeli plant sy'n rhaid talu amdanyn nhw ar gael. Mae'n bryd i blant Cymru gael eu dewis raglenni yn eu hiaith. Fel rhywun di-Gymraeg sy'n codi dau blentyn yn Gymraeg, byddai'n gymorth mawr gartref.

C2 Ydw. Rydw i'n credu y daw diddordeb gan gwmnïau masnachol ar ôl iddi ddod yn amlwg bod galw am y math hyn o wasanaeth. Ar hyn o bryd, mae'n synhwyrol taw S4C sydd ar flaen y gad.

C3 Mudiad Ysgolion Meithrin. Ysgolion cyfrwng Cymraeg.

C4 Mae'r oriau a awgrymir yn cymharu gyda darparwyr eraill. Mae hyn yn holl bwysig os yw'r gwasanaeth Cymraeg i lwyddo. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n rhieni di-Gymraeg yn codi ein plant yn y Gymraeg. Mae nifer cynyddol o deuluoedd yr un fath â ni yn ein rhan ni o Ogledd Cymru. Mae'r gynulleidfa oed cyn ysgol felly yn hynod bwysig yn nhwf ein hiaith genedlaethol. Wedi dweud hynny, dylem hefyd gofio am anghenion y plant hyn, a darparu rhaglenni sydd o'r un safon ag a geir ar wasanaethau Saesneg.

C5 Mae'n rhaid i'r rhaglenni fod cystal â'r rheiny a ddarperir ar wasanaethau Saesneg ar bob lefel oedran. Er enghraifft, nid yw'n werth dangos Sali Mali yn unig yn y Gymraeg tra bo'r marchnata cyffredinol at y plant cyn-ysgol ar lefel Bob the Builder, Thomas the Tank a Fifi and the Flowertots. Mae'n rhaid i'r plant ystyried yr hyn maen nhw'n ei wylio yn "cool" a "chyfredol" er mwyn iddynt wylio'r gwasanaeth Cymraeg yn hytrach na'r lleill. Mae hyn hyd yn oed yn fwy pwysig gyda'r plant hyn a'r arddegau. Wedi dweud hynny, ni fyddai'n addas dim ond prynu a dybio rhaglenni - byddai'n grêt gweld cymeriadau Cymraeg (y gellir hefyd eu prynu a'u dybio gan ddarparwyr Saesneg) yn cael eu marchnata'n well.

C6 Dim sylw mewn gwirionedd, heblaw am nodi y byddai'n amlwg yn well darparu amserlen lawn a di-dor ond os nad oes gofod a/ neu gyllid digonol ar gael mae unrhyw wasanaeth yn well na dim.

C7 Plîs, plîs, plîs, rhowch ystyriaeth go iawn i ddarparu'r gwasanaeth hwn - mae'n sicr yn angenrheidiol fod ein plant Cymraeg eu hiaith yn cael y dewis o wylio rhaglenni yn eu hiaith. Fel y dywedwyd yn gynt, fel rhieni di-Gymraeg, byddai'r gwasanaeth hwn yn arf pwysig inni gefnogi ein plant gyda'u haddysg gyfrwng Cymraeg.

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw James Delaney

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Dwi'n meddwl fod yr oriau yn iawn

C5 Cael rhaglenni sydd o ddiddordeb iddynt. Y rhaglenni maen nhw'n eu gwylio ar hyn o bryd yw Rownd A Rownd Hip Neu Sgip ac ambell un arall

C6 Na

C7 Na

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Erin Dooley

C1 Ydw. Rwy'n teimlo y byddai'n gwella'r gwasanaeth cyhoeddus cyn belled nad yw'r rhaglenni yn dysgu pader i berson yn unig. Rwy'n byw yn Ne Cymru (tu allan i Gaerdydd) ac yn dysgu mewn ysgol gyfun leol. Gan fod yr ardal yn cael ei hystyried yn un Seisnig, does gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr a phobl leol ddim llawer o hyder wrth siarad Cymraeg. Mae'r un nifer o blant yn dysgu Ffrangeg ac Almaeneg yn yr ysgol, a dydyn nhw ddim yn frwd dros eistedd lawr a gwylio ffilm Ffrangeg (gydag is-deitlau neu beidio). Mae'r un peth yn wir gyda rhaglenni Cymraeg. Ar ôl ysgol, eisiau ymlacio maen nhw, nid gweithio'n galed. Mae hefyd yn wir fod sianeli 'Saesneg' yn achub y blaen gyda rhaglenni wedi'u dybio. Pe bae'r sianeli newydd yn datblygu rhaglenni arloesol sydd i'w gweld ar y sianeli Cymraeg yn unig (gan felly osgoi teimlo fel perthynas dlawd), neu allu dangos rhaglenni o America/ Awstralia cyn sianeli eraill, gallai'r sianeli lwyddo. Y lle "cool" i fod.

C2 Ydw gydag amodau. Byddai angen eu hargyhoeddi fod y gynulleidfa darged yn un sy'n tyfu. Gyda'r rheoliadau newydd sy'n gwahardd hysbysebu 'junk food' a theganau yn ystod rhaglenni plant, dyw hysbysebu ddim wastad yn talu ffordd. Mae plant heddiw yn glyfar iawn ac yn adnabod hysbysebion lleol rhad. Pe baech yn gallu cael sianel fasnachol, ynghyd â brandiau cenedlaethol/ rhyngwladol i hysbysebu arni, gallai fod yn dda.

C3 Sefydliad Cerddoriaeth Cymru, Funky Dragon (rhan o CCC), Cyngor Celfyddydau Cymru, Community Arts, Anabledd Cymru. Rwy'n credu hefyd y dylech gynnwys graddedigion/ myfyrwyr y Cyfryngau ym mhrifysgolion Caerdydd, Abertawe, Bangor a Morgannwg (y genhedlaeth nesaf o animeiddwyr, cyflwynwyr, ysgrifenwyr ayyb)

C4 Ymddangos yn rhesymol

C5 Newydd, lliwgar, ffres ac addysgiadol. Rhowch rywbeth na ellir cael hyd iddo 'nunlle arall. Eu cynnwys nhw. Rhowch gamerau iddynt i greu dyddiadur fideo o'u trefi a theuluoedd. Gadewch iddyn nhw fod yn ohebwyr, cyflwynwyr a'r "talent". Mae'n gyfle da i edrych ar enghreifftiau gorau teledu Cymraeg a Saesneg a chreu rhywbeth mwy a gwell. Peidiwch â syrthio i'r un hen faglau. Edrychwch ar ffyrdd newydd o wneud pethau. Adeiladwch ar gryfderau Cymru a'r iaith Gymraeg. Mae Dr Who wedi dangos fod edrych ar hen beth mewn ffordd newydd yn gallu cael llwyddiant rhyngwladol. Does dim unrhyw reswm pam na all sianel deledu newydd i blant wneud yr un peth.

C6 Opsiwn 2 fyddai orau, dwi'n credu, gydag amserlen ddi-dor. Dim ond am gyfnod byr y mae plant yn canolbwyntio, ac hyd yn oed os ydych chi'n 16 oed ac yn gweld rhaglenni'r plant lleiaf, fe fyddwch o leia yn gwybod bod eich rhaglenni chi yn dod cyn bo hir. Gyda'r pum sianel ddaearol mae'n hawdd creu blociau o raglenni i oedrannau gwahanol - dyna'r arfer drwy'r byd. Gyda digidol a chêbl fodd bynnag, mae plant yn syrffio. Os nad yw eu hoff sioe ymlaen (neu o leia hysbyseb yn dangos ei bod ar ei ffordd), byddan nhw'n symud at sianel arall. Byddai cael sianel arall ar gyfer y Cynulliad yn well. Fel hyn, gallech bara gyda'r rhaglenni i'r plant meithrin drwodd at oedolion ifainc gyda'r nos. Un sianel ac un lle hawdd i gael hyd i'r rhaglenni.

C7 Fel pob menter newydd, mae hyn yn mynd i gystadlu gydag iPods, y rhyngrwyd, ffilmiau, dvd a theledu yn gyffredinol. Cyfunwch hwyl ac addysg mewn fformat newydd. Rhowch sylw i fandiau (Cymraeg a Saesneg) fel The Automatic, Feeder, Lost Profets. Rhowch sylw i ystod ehangach o selebs a chyflwynwyr (yn enwedig selebs rhyngwladol gyda gwreiddiau Cymreig…peidiwch canolbwyntio ar Glyn o Big Brother o hyd ac o hyd). Mae Cymry yn falch o'r hyn ydyn nhw ac o ble maen nhw'n dod. Cynhwyswch nhw ar bob lefel.

Roedd 'na arferiad mewn rhaglenni Americanaidd bod unrhyw deulu 'normal' yn wyn. Roedd teuluoedd du ddim ond pan fo'r sgript yn galw am deulu du yn benodol. Roedd rhaglenni arloesol fel the Cosby Show lle gallai'r teulu proffesiynol fod wedi dod o unrhyw hil. Sgrifennu da oedd hyn. Neb yn cael eu gosod mewn 'bocsys'. Dyna sydd ei angen ar deledu Cymraeg. Mae angen sgriptiau da y gellid bod wedi eu cynhyrchu yn Llundain neu Fryste neu Gymry neu'r Alban. Mynnwch sgriptiau da a chreu rhaglenni o safon rhyngwladol o'r cychwyn.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Craig Duggan

C1 Ydw. Mae 'na lawer iawn o gystadleuaeth am sylw plant ar wasanaethau digidol erbyn hyn - CBBC, CITV, Pop ac yn y blaen - heb sôn am y sianeli trwy danysgrifiad. Mae angen rhagor yn y Gymraeg er mwyn i'n plant gael adloniant addas yn eu hiaith nhw. Yn aml iawn, does 'na ddim dewis ond rhaglenni Saesneg.

C2 Nac ydw.

C3 Mentrau iaith, efallai(?)

C4 Mae'r oriau a'r cynulleidfaoedd targed yn ymddangos yn iawn. Yn ein ty ni mae 'na alw yn y boreau, ac ar ôl ysgol. I blant iau (cyn oed ysgol) fe fydd galw yn ystod y dydd hefyd. (Mae 'na lai o alw fin nos, pan fydd y rhieni am weld y teledu). Mae'n bwysig targedu at y grwpiau oedran gwahanol sydd wedi'u nodi er mwyn gallu darparu arlwy wahanol yn ôl yr oedran.

C5 Rhaglenni o safon, Ansawdd uchel
Amrywiaeth - popeth o ddwli i newyddion / rhaglennu ffeithiol ac addysgiadol
Cynnwys sy'n adlewyrchu materion ehangach - e.e. yr amgylchedd, amrywiaeth ddiwylliannol.
Darpariaeth i ddysgwyr - plant ail-iaith.

C6 Opsiwn 1 sy'n rhoi'r dewis mwyaf i wylwyr o bob oed, mae'n ymddangos, a'r gorau yn fy marn i. Mae'n debyg y bydd y naill yn codi ymwybyddiaeth ynglŀ â'r llall dros amser - pobl yn chwilio am y Cynulliad yn cael hyd i raglenni plant a fel arall.

C7 Mae hyn yn rhywbeth pwysig iawn, a byddai cael sianel neilltuol i blant neu ragor o gynnwys i blant yn gam mawr ymlaen. Mae gwaith arbennig yn cael ei wneud gan Blaned Plant eisoes (mae mwyafrif ein hamser ni fel teulu yn mynd ym mhabell Planed Plant). Mae'r rhaglenni a'r cymeriadau yn rhan fawr a phwysig o'u bywydau nhw - mae'n gyffrous meddwl y gall fod rhagor o ddewis a chyfle i weld rhaglenni'n amlach yn y dyfodol.

·_·_·_·_·_·

Enw Simon Eastop

C1 Ydw. Rydw i'n credu fod hyn yn syniad ardderchog. Rydw i'n dysgu Cymraeg ac mae fy merch 4 mlwydd oed mewn ysgol Gymraeg. Byddai'r sianel hon yn ein helpu ni'n dau wrth ddysgu.

C2 Ydw

C3 Gallaf

C4 Bydden i'n dweud bod angen ichi gynnwys dysgwyr y Gymraeg o bob oed, gan fod yr eirfa mewn rhaglenni plant o gymorth mawr i bob dysgwr.

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Gareth Iddon Edwards

C1 Ydw. Bydd gwasanaeth o'r fath yn rhoi cyfle o'r newydd i blant wylio rhaglenni Cymraeg yn ystod y dydd, rhywbeth sydd ei wir angen ar hyn o bryd. Gwelir bod sianeli eraill Prydeinig ac Americanaidd eisoes yn darlledu rhaglenni plant drwy'r dydd ar ddigidol sydd yn amddifadu plant Cymru o'r cyfleoedd i wylio rhaglenni cystal os nad gwell yn y Gymraeg.

Bydd y gwasanaeth hwn hefyd yn diwallu anghenion amrywiol plant drwy ganiatáu iddynt allu gwylio rhaglenni pryd fel y mynnent.

C2 Nac ydw

C3 Na

C4 Dylid darlledu y gwasanaeth cymaint â sydd bosib fel a wneir eisoes gan sianeli eraill. Bydd sicrhau gwasanaeth Cymraeg i blant wylio teledu pryd y maent yn dymuno gwneud hynny yn sicrhau teyrngarwch. Mae'n bwysig hefyd cydnabod disgwyliadau plant bod gwasanaeth o'r safon uchaf ar gael fydd yn rhoi gwerth ychwanegol i'r Gymraeg. Dylid nodi nad yw darlledu drwy'r dydd yn golygu bod plant yn gwylio teledu drwy'r dydd.

C5 Safon a pherthnasedd i anghenion y gynulleidfa. Mae cyflwyno cymeriadau sydd eisoes yn adnabyddus yn y Saesneg i'r sianel wedi bod yn wych o beth sydd yn dangos i rieni a plant o bob oed bod y Gymraeg yn iaith fyw a chyfoes. Er mae'n debygol y bydd ail ddarlledu yn digwydd yn ystod y dydd dylid sicrhau bod hyn yn digwydd cyn llied a phosib.

C6 O ddau ddewis anodd credaf mai opsiwn 2 fyddaf yn ffafrio fwyaf. Er bydd colli trafodion y Cynulliad yn golled. Tybed fyddai modd dod i ddealltwriaeth gyda sianel BBC Parliament i ddarlledu'r trafodion drwy ddefnyddio y dechnoleg ddiweddaraf fel bod gwylwyr yn gallu dewis pa trafodion y dymunent wylio boed hyn o'r Alban, Llundain neu Gymru

C7 Dim sylw

·–·–·–·–·–·

Enw Iwan Ellis

C1 Ydw. Syniad ffantastig ydi sianel i blant yn unig. Mae C beebies ar digidol yn wych ond mae'n Saesneg. Buasai cael sianel Cymraeg i blant unrhyw adeg yn handi iawn. Mae cael gwybod y buasai darpariaeth Cymraeg ar gael wrth pwyso botwm unrhyw adeg o'r dydd yn ddelfrydol. 6 yn y bore tan 7 yr hwyr ydi'r oriau gorau fel rhiant.

C2 Ydw.

C3 Na

C4 Oriau darlledu buasai 6 y bore tan 7 yr hwyr. 6 tan 8 i blant ifanc. Sianel wedi ei dargedu i blant ifanc yn y bore a hyn efallai ar ôl oriau ysgol. Awr cyn gwely o storiau a.y.b hefyd debyg i cbeebies sydd gyda storiau mynd i gwely ac ati rhwng 6 a 7. Effeithiol iawn.

C5 Sianel ar gael unrhyw adeg o'r dydd, nid dim ond am rhannau bach o'r dydd e.e. cyn cinio neu ar ol 5. Mae cael defnydd o sianel i blant yn unig ar gyffyrddiad 'remote control' yn allweddol. Dim rhannu gyda oedolion e.e. gwleidyddiaeth cynulliad yn y pnawn!!!

C6 Cael gwared ar y sianel Cynulliad. Opsiwn 2.

C7 Mae darpariaeth Saesneg BBC gwych. Dim byd cyfatebol yn y Gymraeg. Gallwn droi at cbeebies unrhyw adeg o'r dydd yn ystod yr oriau darlledu yn gwybod bod rhaglen o safon uchel ar gael. Buasai rhywbeth tebyg yn y Gymraeg yn grêt. Y trueni ydi mai Saesneg mae'r mab yn ei glywed ar teledu ac nid Cymraeg.

·–·–·–·–·–·

Enw Philip England

C1 Ydw. Fe fydd yn cynyddu'r dewis sydd ar gael.

C2 Ydw. Mae S4C eisoes yn cynhyrchu rhai rhaglenni plant ardderchog, a rhaglenni archif o'r

gorffennol. Rydw i'n credu fod sianel benodol i blant yn syniad da. Lle bo'n bosib, fodd bynnag, dwi'n teimlo y dylai S4C gael sain yn Saesneg hefyd.

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Natasha Fenwick

C1 Ydw. Mae fy mab mewn ysgol Gymraeg ac wedyn mewn crèche Saesneg tan 5pm. Yn anffodus, mae'n colli'r rhan fwyaf o raglenni Cymraeg yn ystod y dydd. Byddai sianel benodol i blant yn golygu fod rhaglenni Cymraeg ar gael i fy mhlentyn. Gellid ei defnyddio hefyd fel adnodd dysgu mewn ysgolion ac hefyd i rieni sy'n ceisio dysgu Cymraeg.

C2 Nac ydw. Dydw i ddim yn credu y byddai gan drydydd parti yr ymrwymiad tuag at y Gymraeg sydd gan S4C.

C3 Na

C4 Byddai'n well gen i oriau hirach ar gyfer plant oed cyn ysgol, gan fod canran uchel o blant meithrin yn dod o deuluoedd sy'n gweithio ac mewn canolfannau gwarchod/ crèches rhwng 9 - 5

C5 Hybu'r iaith Gymraeg, cynnwys addysgiadol, mwy o oriau - mwy hygyrch

C6 Dileu darlledu'r Cynulliad a defnyddio S4C 2 yn llawn

C7 Rwy'n credu y gellid defnyddio S4C-2 yn well a dylid dileu darllediadau'r Cynulliad

·_·_·_·_·_·

Enw Siwan Gregory

C1 Ydw. Byddai'n fy helpu i gan fy mod yn gwarchod plant o gartrefu di Gymraeg sy'n ein hysgolion meithrin ac ar hyn o bryd rwy'n defnyddio cbeebies weithiau gan nad oes digon o ddarpariaeth Gymraeg ar gael ar hyn o bryd

C2 Ydw

C3 Na

C4 Yr un faint o oriau neu rhai tebyg i cbeebies er mwyn gwneud yn si□r na fydd pobol yn troi at hwnnw.

C5 Bod amrywiaeth dda o rhaglenni at ystod eang o oedran

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Emma Gregory

C1 Ydw. Does dim digon o raglenni Cymraeg i blant ar gael

C2 Nac ydw

C3 Nac ydw

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Mae llawer o sianeli yn cynnwys rhaglenni Saesneg ond dim digon mewn Cymraeg o gwbl. Gan fod plant yn gwylio llawer o deledu dylai bod mwy o raglenni Cymraeg ar gael iddynt a mwy o amrywiaeth o raglenni.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw B Griffiths

C1 Ydw. Wrth gwrs dwi yn cytuno bod angen codi nifer y plant sydd yn edrych ar S4C, mae hynny yn hanfodol os yw y Gymraeg i ffynnu. Ond dwi yn gwarchod fy nith yn aml iawn yn y boreau ag yn siomedig dros ben fod yna ddim rhaglenni i blant bach cyn 12.00 ar S4C digidol. Dwi ddim yn cytuno fod angen sianel newydd ar gyfer plant pan nad ydi S4C yn defnyddio y sianel digidol yn gyflawn nawr. Mae yna gyfle i darparu rhaglenni o wyth tan hanner dydd ar S4C digidol ond nid yw hynny yn digwydd, pam? Mae'r peth yn hurt.

C2 Ydw

C3 Na

C4 Gwelir uchod

C5 Dim sylw

C6 Buaswn wrth fy modd gweld S4C 2 dangos rhai rhaglenni o'r gorffennol, rhyw fath o UK Gold Cymraeg, mae yna lawer iawn rhaglenni o safon uchaf o'r 70 a 80'au rydym ni byth yn ei weld.

Dwi yn un mwynhau edrych ar cwestiynau i'r Prif Weinidog o'r Cynulliad ar pnawn Mawrth ar S4C 2, os fydd y sianel yna yn cael ei chymeryd drosodd gan rhaglenni plant a fyddwn ni yn colli darllediad o'r Cynulliad yn yr iaith Gymraeg? Dwi yn erbyn hynny.

Hefyd dwi yn credu fod hi'n bwysig gweld hysbysebion rhwng rhaglenni plant ar S4C sydd yn y Saesneg yn cael ei cyfieithu i'r Gymraeg os rydym am wir rhoi gwasanaeth gyflawn Cymraeg i ein plant.

C7 I orffen diolch ichwi am yr hyn ydych yn ei wneud dros Cymru a'r iaith. Da gennyf wybod am bobl fel chwi sydd yn gwneud cymaint dros ein gwlad. Pob llwyddiant ichwi yn y dyfodol. Ar ran y teulu.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Nan Griffiths

C1 Ydw

C2 Dim sylw

C3 Dim sylw

C4 Fel llawer o'i chyfoedion, mae fy wyres fach dair oed yn treulio ei dyddiau mewn meithrinfa. Bydd yn cyrraedd adref tua 6.00 ac mae'n troi y teledu plant bach (Saesneg) ymlaen ar unwaith. Mae hefyd yn gwylio'r teledu yn y bore cyn cychwyn i'r feithrinfa. Rwy'n tybio mai rhaglenni Saesneg yn unig sydd ar gael iddi yn y cyfnodau hyn ac mae hyn yn peri pryder i mi.

C5 Mwynhad wrth reswm ond hefyd eu bod yn clywed Cymraeg cywir, rhywiog gan fod iaith llawer o'r bobl y mae plant yn dod i gysylltiad a nhw e.e. mewn meithrinfa yng Nghaerdydd ,yn wallus iawn.

C6 Buaswn i yn barod i "aberthu" y darllediad o'r Cynulliad er mwyn ehangu'r ddarpariaeth i blant - ac rwy'n si□ y caech ragor o wylwyr! Iaith ein plant yw ein blaenoriaeth.

C7 Rydych yn hysbysebu ac yn gofyn yn y wasg i bobl gyffredin ymateb i'r ddogfen. Rwy'n deall bod yn rhaid i ddogfen o'r fath fod yn gyfreithiol gywir a'i bod yn gwbl addas efallai i gyrff cyhoeddus ymateb iddi ond nid wyf yn meddwl y cewch lawer o ymateb gan y werin bobl i'r ddogfen astrus hon. Oni fyddai modd i chi lunio rhyw fath o grynodeb syml mewn iaith bob dydd?

·_·_·_·_·_·

Enw Jake Griffiths

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Mentrau Iaith efallai

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Sion Gwilym

C1 Ydw

C2 Dim sylw

C3 Dim sylw

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Rwy'n croesawu'r bwriad wedi darllen y ddogfen ymgynghorol, ond yn pryderu am y posibilrwydd o golli darllediadau o'r cynulliad. Credaf eu bod yn adnodd pwysig na ddylent eu colli.

·_·_·_·_·_·

Enw E Hill

C1 Ydw. Mae plant Cymru yn haeddu dewis Cymraeg i CBBC

C2 Ydw

C3 Dim sylw

C4 6am - 7pm yn ymddangos yn ddigonol.

C5 Adloniant Cymraeg o safon uchel (nid cartwnau oriental wedi'u dybio). Cyn lleied o hysbysebu ag sy'n bosibl, a phan fo hysbysebion, eu bod yn Gymraeg (hysbysebion lleol o bosib). Rhaglenni i ddysgwyr sy'n gwylio gyda'u plant. Rhaglenni addysgiadol sy'n cefngoi'r cwricwlwm Cymraeg.

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Geraint Hopkins

C1 Dim sylw

C2 Dim sylw

C3 Dim sylw

C4 Dydw i ddim yn cytuno y dylid cwtogi na thorri ar draws darllediadau'r Cynulliad. Mae S4C2 yn darparu gwasanaeth unigryw a di-dor o'r gweithgareddau, yn wahanol iawn i'r ffordd y mae rhaglenni fel "am.pm" yn ei wneud. Mae'n wasanaeth ardderchog ar hyn o bryd, yn cymharu'n dda gyda gwasanaeth BBC Parliament.

Ar hyn o bryd mae gan bobl Cymru gyfle i wylio a gwrando ar eu cynrychiolwyr drostyn nhw eu hunain. Mae rhanddeiliaid o'r sectorau statudol a gwirfoddol yn gallu monitro a gweld datblygiadau gwleidyddol ar waith.

Dylai'r ddau Sesiwn lawn ar Ddyddiau Mawrth a Mercher o leiaf gael eu darlledu'n fyw ac yn llawn. Dylai cyfarfodydd pwyllgor fod ar gael ar-lein os nad ydynt yn cael eu darlledu ar y Gwasanaeth Newydd.

C5 Dim sylw

C6 Dylid edrych yn fanylach ar Opsiwn 3. Mae llawer o sianeli digidol yn cynnig dewis o beth i'w wylio drwy gyfrwng y "botwm coch". Mae darllediadau'r BBC o Wimbledon, Cwpan y Byd a digwyddiadau Chwaraeon eraill yn enghreifftiau o hyn. Oni ellir edrych yn bellach i hyn fel ffordd i gynyddu gofod ar S4C Digidol neu'r Gwasanaeth Newydd? Byddai hyn yn galluogi pobl i ddewis gwylio'r Cynulliad Cenedlaethol, heb amharu ar y gwasanaeth newydd i blant.

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Jarman Hughes

C1 Ydw. Wrth gwrs y byddai gwasanaeth pwrpasol i blant yn gwella'r gwasanaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Ond y cwestiwn yw pwy sydd yn mynd i dalu amdano?

Mae nifer yr ailddarllediadau ar S4C ar y funud yn warthus, a byddai defnyddio unrhyw arian a ddefnyddir yn bresennol ar gyfer S4C ar gyfer sianel i blant yn gwaethygu'r sefyllfa.

C2 Na- ddim ar sail masnachol. Byddai y costau yn fwy nag unrhyw incwm / budd.

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Emily Huws

C1 Ydw. Dylai plant Cymru gael yr un ddarpariaeth â phlant Lloegr ... sef sianel ar eu cyfer nhw'u hunain yn eu iaith eu hunain, a hynny ar fyrder.

C2 Ydw. Mae gan blant Cymru'r hawl foesol i gael rhaglenni o safon uchel, mewn iaith GYWIR ... nid rhaglenni sy'n "siarad i lawr" â nhw yn llawn cystrawennau gwallus a geirfa garbwl.

C3 Na

C4 Nac oes

C5 Rhaglenni deniadol o safon uchel fydd yn diddanu ac yn addysgu plant wedi eu cynhyrchu gan bobl gymwys sy'n gwybod beth yw anghenion plant.

C6 Dim sylw

C7 Mae plant Cymru wir angen sianel iddyn nhw'u hunain, ond ni fydd yn cynnig arlwy israddol, nawddoglyd iddynt yn gymwynas â nhw. Mae darparu unrhyw arlwy ar gyfer plant yn gyfrifoldeb mawr. Gobeithio y penodir pobl hyddysg ym myd llunyddiaeth plant i gynhyrchu'n ddeallus ar eu cyfer.

· _ · _ · _ · _ · _ ·